

Gwiriwch eich aeddfedrwydd technoleg gyda'r offeryn Cwmpawd Diwylliant Digidol newydd

12/02/2020



Adnodd ar-lein am ddim sydd wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant i ddatblygu eu galluoedd digidol

Lansiodd Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol y [Cwmpawd Diwylliant Digidol](#) neithiwr, pecyn cymorth am ddim wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i gael y gorau o ddigidol.

"Gall sefydliadau treftadaeth ffynnu yn yr oes ddigidol, gan ddefnyddio technoleg i ddenu'r ymwelwyr a'r cymorth sydd eu hangen arnynt."

- Josie Fraser, Pennaeth Digidol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Beth yw'r Cwmpawd Diwylliant Digidol?

Mae'r cwmpawd yn arf hyblyg sy'n gallu helpu sefydliadau o bob maint ac ar bob cam o'u taith ddigidol. Mae'n cael ei ffurfio o ddwy elfen:

Y traciwr


Mae'n system ryngweithiol ar-lein y gellir ei defnyddio i:

- Asesu'r defnydd presennol o ddigidol - boed ar draws y sefydliad cyfan neu mewn ardal benodol
- Gosod targedau
- Cofnodi'r meddwl
- Adolygu cynnydd

Y Siarter

Mae hyn yn helpu sefydliad i wneud a chyfleu ymrwymïadau i weithgareddau digidol sy'n:

- Arwain gan werthoedd craidd
- Canolbwyntio ar anghenion pobl
- Ymatebol i newid



Gellir defnyddio'r Cwmpawd Diwylliant Digidol ar draws sefydliad neu ar gyfer ardaloedd penodol

Sut y gall helpu?

Gall y dull cynhwysfawr hwn helpu sefydliadau mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Datblygu strategaeth ddigidol
- Darganfod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella
- Sefydlu ble i fuddsoddi, gan gynnwys ym maes datblygu sgiliau, technoleg a meithrin partneriaeth
- Ymgorffori ymarfer digidol gorau

Sgiliau digidol ar gyfer Treftadaeth

Mae lansiad y Cwmpawd Diwylliant Digidol yn dod wrth i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gyhoeddi [Sgiliau Digidol newydd ar gyfer Treftadaeth](#), sy'n anelu at wella galluoedd digidol ar draws y sector treftadaeth. Mae cyllid, hyfforddiant a chymorth ar gael i sefydliadau treftadaeth ac arweinwyr y sector.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r [Cwmpawd Diwylliant Digidol](#) yn un o'r [ymrwymadau a wnaethom](#) i wella galluoedd digidol yn ein sector yn dilyn adroddiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2018 [Culture is Digital](#).

Datblygwyd y Cwmpawd gan bartneriaeth dan arweiniad The Space a Creative Co-op, Culture24, The Audience Agency/Golant Innovation a Phrifysgol Caerl?r.



ddordeb hefyd mewn ...

[Josie Fraser](#)

[Lansio menter newydd: Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#)